



Teitl y swydd:	Cydllynydd Cyllid
Prosiect:	Edible Mach - Tyfu, Coginio, Bwyta Gyda'n Gilydd / Grow, Cook, Eat Together
Rôl:	3.5 awr yr wythnos, yr union oriau yn hyblyg. Bydd yn ofynnol mynychu cyfarfod ar-lein a gynhelir gyda'r nos bob yn ail fis
Lleoliad:	O bell
Cyflog:	£2,600 y flwyddyn (yn seiliedig ar FTE o £26,000 y flwyddyn)
Hyd:	Cyfnod Penodol – yn dod i ben 31 Ionawr 2027
Pensiwn:	Cyflogwr 4% / gweithiwr 6% ar ei holl enillion, drwy Nest Pensions
Gwyliau:	28 diwrnod + 8 diwrnod gŵyl banc (pro rata)
Rheolwr Llinell:	Rheolwr Prosiect

Cefndir y Prosiect

Mae Mach Maethlon yn fenter gydweithredol nid-er-elw sy'n gweithio i hybu cadernid bwyd ym Mro Ddyfi. Fel rhan o Mach Maethlon, mae Edible Mach yn brosiect a arweinir gan y gymuned ar gyfer tyfu cnydau bwyadwy o amgylch Machynlleth a chynnal gweithdai coginio a thyfu.

Mae hon yn swydd newydd gyffrous, gan weithio ym Machynlleth a'r cyffiniau i gynnal prosiect newydd gydag arian y Loteri ac sy'n adeiladu ar y gwaith y mae Mach Maethlon wedi bod yn ei wneud ym Machynlleth ers dros 10 mlynedd.

Ein bwriad yw uwchsgilio, ysbrydoli a rhoi hyder i bobl lleol i goginio a thyfu eu bwyd eu hunain trwy gynnal gweithdai tyfu a choginio, a threfnu digwyddiadau tymhorol a sesiynau gwirfoddoli mewn safleoedd tyfu cymunedol lleol.

Bydd y prosiect hwn yn rhedeg am ddwy flynedd, a'i fwriad yw cynyddu sgiliau o ran tyfu bwyd, ei ddewis a'i goginio a bwyta'n faethlon gyda chynhwysion wedi'u tyfu'n lleol, yn ogystal â chynyddu cydlyniant cymunedol a gwella sgiliau iaith Gymraeg y gymuned.

Byddwch yn rhan o dîm y prosiect a fydd yn gweithio gydag aelodau pwyllgor gwirfoddol Edible Mach ac yn cael eu cefnogi ganddynt, a hefyd, fel rhan o Mach Maethlon, y Cyfarwyddwyr gwirfoddol.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i rywun wneud gwahaniaeth mawr i dyfu cymunedol a sicrhau cadernid bwyd lleol ym Machynlleth a'r cyffiniau.

Tyfu, Coginio, Bwyta Gyda'n Gilydd / Grow, Cook, Eat Together
wedi'i ariannu gan raglen "Pobl a Lleoedd" Cronfa Gymunedol y Loteri
Genedlaethol.



Disgrifiad swydd

Bydd y Cydlynnydd Cyllid yn gyfrifol am sicrhau bod gweithrediadau ariannol o ddydd i ddydd Edible Mach yn rhedeg yn llyfn. Mae hyn yn cynnwys datblygu, rheoli ac adrodd ar y gweithgareddau ariannol ar gyfer holl brosiectau Edible Mach. Bydd y Cydlynnydd Cyllid yn cydweithio'n agos â'r Rheolwr Prosiect ac yn adrodd yn ddeufisol i bwyllgor Edible Mach, gan lunio adroddiadau ariannu a chadw llygad ar gyllidebau prosiectau. Yn y rôl hon byddwch yn gyfrifol am reoli cyfrifon sydd i'w talu a'u derbyn, yn anfonebu, yn cysoni mantolenni, yn llunio adroddiadau ariannol, ac yn gyfrifol am y gyflogres a threuliau. Chi fydd y person cyswllt ar gyfer sicrhau cywirdeb, cydymffurfio ac effeithlonrwydd yn yr holl feysydd hyn.

Prif gyfrifoldebau:

- Rheoli'r cyfrifon i'w talu ac i'w derbyn ar gyfer prosiectau Edible Mach, gan sicrhau bod trafodion ariannol yn cael eu cofnodi'n gywir a'u cysoni â'r systemau cyfrifyddu
- Llunio adroddiadau ariannol a'u cyflwyno yng nghyfarfodydd y pwyllgor bob deufis
- Bod yn llofnodwr i'r banc ac yn gyfrifol am dalu anfonebau, cyflogau, treuliau a thaliadau
- Bancio cyfraniadau Paypal
- Gwirio a chofnodi incwm o loto Powys
- Gweithredu a rheoli systemau monitro cyllid ar gyfer tracio cyllidebau a rhagolygon
- Llunio adroddiadau ariannu, gan sicrhau cydymffurfio ag arian loteri a rheoliadau a safonau ariannol
- Monitro taflenni amser a llafur
- Gwirio a chadarnhau'r gyflogres fisol gan PAVO, a'u diweddarau gydag unrhyw newidiadau i oriau gweithwyr neu newid personél
- Cadw cofnodion y gyflogres yn gywir ar ein system Dropbox
- Cynorthwyo i lunio archwiliadau blynyddol a darparu data ariannol angenrheidiol
- Cefnogi'r Trysorydd yn ôl yr angen

Manyleb y person

		Hanfodol	Dymunol
1. Cymwysterau	Cymhwyster hyd at Lefel-A neu gyfwerth		X
	Cymhwyster perthnasol mewn cadw cyfrifon, cyllid neu debyg		X
2. Profiad ymarferol	Gweinyddu ariannol/cadw cyfrifon	X	
	Rheoli cyllidebau	X	
	Rheoli cyllid prosiect, yn ddelfrydol prosiectau wedi'u hariannu gan grantiau		X
	Rhoi gwelliannau ariannol ar waith		X
	Gweithio gyda phrosiectau a ariennir gan grantiau cymunedol		X
3. Gwybodaeth	Dealltwriaeth dda o systemau monitro cyllid ar gyfer tracio cyllidebau	X	
	Profiad o ddefnyddio meddalwedd cyfrifo		X
	Gwybodaeth am rwydweithiau bwyd lleol		X
	Gwybodaeth am y gymuned/trydydd sector		X
4. Sgiliau	Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig rhagorol	X	
	Sgiliau cyfrifiadurol rhagorol, gan gynnwys gwybodaeth ymarferol dda o Microsoft Office	X	
	Y gallu i weithio gyda grwpiau amrywiol o unigolion	X	
	Y gallu i weithio'n dda mewn tîm	X	
	Sgiliau cyflwyno		X
	Yn siarad Cymraeg		X
5. Rhinweddau personol	Yn gallu ysgogi eich hun, ac yn gallu gweithio heb oruchwyliaeth i derfynau amser	X	
	Trefnus iawn ac yn dda am reoli'ch amser	X	
	Sylw i fanylion	X	

Mae Mach Maethlon wedi ymrwymo i gynnig amgylchedd gwaith sy'n meithrin amrywiaeth, cynhwysiant a chyflogaeth cyfle cyfartal.

Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn amlinellu eich cymwysterau a'ch profiad i matt@machmaethlon.org

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 5pm ar 14 Ebrill 2025

Bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal ym Machynlleth